Astudiaeth Achos: Nabirye

Mae Nabirye tua 9 oed ac mae'n byw gyda'i phedair chwaer a'i dau frawd mewn pentre bach yn ne-ddwyrain Uganda. Dydy tŷ'r teulu ddim wedi'i adeiladu i gyd eto – mae ynddo ddwy stafell wely fach a chwt ieir bach sy'n dal i aros i'r cywion gyrraedd.

Er bod Nabirye yn ddall, mae hi'n alluog iawn ac mae'n codi ac yn gwisgo bob bore heb help. Yn ystod y dydd mae'n helpu ei mam i olchi platiau a nôl dŵr.

Nabirye, o Uganda

Pan fydd ei ffrindiau o gwmpas, maen nhw'n chwarae gemau sgipio a chwarae mig. Ond mae holl ffrindiau Nabirye yn mynd i'r ysgol, felly mae hi ar ei phen ei hun yn ystod y dydd. Roedd hi'n mynd i'r ysgol ar un adeg, pan oedd hi tua 6 oed, ond doedd dim digon o arian gan ei theulu i barhau i dalu am ei haddysg. Pan oedd hi yn yr ysgol, dysgodd gyfrif i gant heb unrhyw gamgymeriadau.

Byddai rhieni Nabirye yn hoffi iddi fynd i'r ysgol er mwyn iddi allu gofalu amdani ei hun yn y dyfodol. Mae Nabirye yn teimlo'n flin ei bod hi'n gorfod aros gartre' pan fydd ei ffrindiau i gyd yn mynd i'r ysgol. Mae hi am fynd fel nhw. Pan fydd hi wedi tyfu, mae hi am fod yn yrrwr. Yn gyffredinol mae hi'n hoffi peiriannau.

Dydy'r rhan fwyaf o blant pentre sydd ag anableddau ddim yn mynd i'r ysgol chwaith.

Photo © Georgina Cranston/Sightsavers
Text © Sightsavers